**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 22 Ebrill 2021 am 2.00pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | P Downing | P R Hood-Williams |
| P K Jones | M A Langstone | W G Lewis |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Jeremy Davies | Arweinydd Grŵp Parciau a Glanhau |
| Scott Dummett | Uwch-gyfreithiwr |
| Deb Hill | Arweinydd y Tîm Cadwraeth Natur |
| Chris Howell | Pennaeth Rheoli Gwastraff |
| Simon Lydiard | Arweinydd Tîm, Parciau a Chynnal Tiroedd |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd M Thomas – Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd
Y Cynghorydd R Francis-Davies – Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd/wyr: P Lloyd

## 31 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol gan aelodau

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 32 Cofnodion:

Penderfynwyd y dylid cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021, fel cofnod cywir yn amodol ar yr ychwanegiadau canlynol:

1) Ychwanegu enw'r Cynghorydd A S Lewis, Aelod y Cabinet dros Ynni a Thrawsnewid Gwasanaethau at y rhestr o fynychwyr; a
2) Newid y gwall teipograffyddol 'a nodwyd' i 'wedi'i leoli'.

## 33 Rheoli a Chynnal Mannau Agored (Bioamrywiaeth)

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Wella'r Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd at Bolisïau'r Cyngor sydd ar waith i reoli mannau agored ac ymrwymiad y cyngor i fioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd.

Manylodd ar y materion sy'n gysylltiedig â dolydd blodau gwyllt, torri glaswellt a'r angen i sicrhau ymgynghori/ymgysylltu â chymunedau er mwyn cael cyfaddawd a chadw at fioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd.

Rhoddodd y Pennaeth Rheoli Gwastraff, gyda chymorth Swyddogion, grynodeb o'r arferion cynnal a chadw presennol a chynigiodd feysydd i'w hystyried ar sut y gallai'r cyngor reoli ei fannau gwyrdd yn wahanol er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol o gynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe - fel ein bod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth, yn lleihau ein hôl troed carbon, yn gwella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'n hamgylchedd naturiol ac yn sicrhau budd i iechyd a lles.

Nododd yr Aelodau'r cwmpas, ymylon ffyrdd, ardaloedd glaswelltog eraill a mannau amwynder, meysydd posib i'w hystyried o ran adolygu a materion cyffredinol.

Cyfeiriodd at wall teipograffyddol yn rhif 4.2 o'r adroddiad sy'n cyfeirio at dorri ardaloedd amwynder 2 waith y flwyddyn.  Mae'r ardaloedd hyn yn cael eu torri hyd at 14 gwaith y flwyddyn.

Roedd trafodaethau'r Aelodau'n canolbwyntio ar:

1) Ymylon glaswellt ar ochr y ffordd a'r angen i yrwyr fod yn ymwybodol o'u gweithredoedd wrth barcio cerbydau.
2) Glaswellt hir ar fanciau/llethrau sy'n denu sbwriel, tipio anghyfreithlon a baw cŵn.
3) Cynnwys ysgolion mewn unrhyw ymgynghoriad.
4) Argymhellion yr Adolygiad o Ymchwiliad yr Amgylchedd Naturiol (a gynhaliwyd yn 2019).
5) Ymwybyddiaeth o Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (2016) a'r dyletswyddau y mae'n eu gosod ar y cyngor.
6) Sicrhau yr ymgynghorir â phob grŵp (Plantlife, Buglife a'r RSBP).
7) Mathau o gymysgeddau hadau blynyddol a'r defnydd o dyweirch blodau gwyllt.
8) Eiddo lleol sy'n cymryd drosodd ymylon a rôl y sefydliadau sy'n cynnal cylchfannau'r cyngor.
9) Cymorth ar gyfer y cynllun peilot cerbydau torri a chasglu.
10) Yr angen i sicrhau'r gwahaniaeth barn yn y gymuned ynghylch rheoli mannau agored.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio a Thwristiaeth at ymgynghori/ymgysylltu â sefydliadau fel Plantlife, Buglife a'r RSPB, ynghyd â'r etholwyr. Roedd yr angen i gynnal cydbwysedd o fewn ein parciau o ran galluogi cyfranogiad mewn chwaraeon wrth ystyried materion bioamrywiaeth yn hollbwysig.

Cyfeiriodd at ddatblygu cynllun gweithredu a chynnwys Llywodraeth Cymru wrth gefnogi'r mentrau hyn drwy gyllid grant.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau, cadarnhaodd swyddogion y canlynol:

a) Mae angen ystyried defnyddio cymysgeddau lluosflwydd a thyweirch blodau gwyllt.
b) Byddai angen ymgynghori â chydweithwyr yn yr adrannau Priffyrdd a Chynllunio ynghylch cyfreithlondeb aelwydydd sy'n cymryd drosodd ymylon glaswellt.
c) Roedd difrod cerbydau i ymylon yn fater priffyrdd a byddai angen ystyried pob safle yn ôl ei haeddiant.
ch) Mae caniatáu i laswellt dyfu'n rhydd yn golygu bod angen casglu sbwriel ac mae planhigion dreiniog yn peri problem.
d) Mae ymgysylltu ag ysgolion yn ystyriaeth gadarnhaol gan eu bod yn fwy diogel o ran dylanwadau allanol.
dd) Er bod ymgynghori â sefydliadau a phreswylwyr lleol yn hollbwysig, mae gofynion statudol yn aml yn gwrthdaro â'r hyn y byddai orau gan y rhan fwyaf o breswylwyr.
e) Mae angen i'r cyhoedd fod yn fwy ymwybodol o fentrau, e.e., coridor pryfed peillio'r Mwmbwls i Fargam.
f) Wrth archwilio ardaloedd bach o awdurdod lle byddem yn gadael rheoli glaswellt fel y mae, ac ardaloedd lle byddem yn ei newid, byddai angen ei gyflwyno mewn modd rheoledig. Yn y pen draw, mae angen i benderfyniadau fod yn weithredol hylaw ac yn fforddiadwy.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd:**

a) y bydd cwmpas yr adolygiad hwn yn cael ei gyfyngu i ddechrau i gynnal ardaloedd glaswelltog.
b) y bydd Timau Gweithrediadau Parciau a Chadwraeth Natur yn cysylltu â Plantlife a sefydliadau perthnasol eraill mewn perthynas ag adolygiad o drefn cynnal mannau gwyrdd y cyngor.
**c)** y bydd adroddiad pellach yn cael ei ddwyn yn ôl i'r PDP maes o law yn nodi'r cyd-destun polisi arfaethedig yn y dyfodol cyn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cabinet.
d) y trefnir gweithdy i bennu dull cydgysylltiedig ac effeithiol o ymgynghori er mwyn sicrhau parhad.

## 34 Cynllun Gwaith 2020 - 2022

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith. Nodwyd y byddai Dyddiadur y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2021-2022 yn cael ei ystyried yng nghyfarfod blynyddol y cyngor ar 20 Mai 2021.

Dywedodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd y byddai cyfarfod cyntaf Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd yn cael ei gynnal ddydd Iau, 17 Mehefin 2021.

**Penderfynwyd :**

1) y byddai'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei ystyried yng nghyfarfod cyntaf y Flwyddyn Ddinesig.
2) y byddai'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-2022 yn cael ei gyflwyno i'w ystyried.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.29 pm

**Cadeirydd**